


## ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

*Cymraeg 2050* yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo'n llawn i'r strategaeth newydd, ac mae'r targed ar gyfer miliwn o siaradwyr wedi'i gynnwys yn ei Rhaglen Lywodraethu. Hefyd, mae iaith Gymraeg sy'n ffynnu yn un o saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Hefyd, mae gennym rwymedigaeth statudol i ystyried yn llawn effeithiau ein gwaith ar y Gymraeg. Mae hyn yn golygu y dylai unrhyw bolisi gan Lywodraeth Cymru ystyried sut mae ein polisïau yn effeithio ar yr iaith a'r rhai sy'n ei siarad.

Mae gan [strategaeth Cymraeg 2050](#) dair thema gydberthynol:



Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (a gwblhawyd gan Dîm Safonau'r Gymraeg, e-bost: [Safonau.Standards@llyw.cymru](mailto:Safonau.Standards@llyw.cymru)):

## **A yw'r cynnig yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg (Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg)?**

### **Amcanion Polisi:**

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau newydd a safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl mewn carchardai yng Nghymru. Mae'r gwaith o ddatblygu'r Fframwaith a'r safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y carchardai yn flaenoriaethau a nodir yn y Cytundeb Partneriaeth ar gyfer Iechyd mewn Carchardai<sup>1</sup> a gytunwyd gan Lywodraeth Cymru, byrddau iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) yng Nghymru. Nod y Cytundeb Partneriaeth yw ysgogi gwelliannau mewn iechyd a llesiant pobl sydd yn y carchar yng Nghymru, gan gydnabod rhwymedigaethau statudol unigryw'r partneriaid allweddol. Ei nod yw adeiladu ar y nod a rennir o sicrhau bod y rheini sydd yn y carchar yn cael byw mewn amgylchedd sy'n hyrwyddo iechyd a lles, a lle mae pobl yn gallu cael gwasanaethau iechyd o'r un safon â'r gwasanaethau sydd ar gael yn y gymuned.

Mae datblygu'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a'r safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y carchardai yn ymrwymadau penodol yn y [Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau](#) a [Chynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Iechyd Meddwl](#).

Yn benodol: mae Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Iechyd Meddwl 2019-2022<sup>2</sup> Llywodraeth Cymru yn amlinellu camau gweithredu clir ar gyfer pobl yn y carchar gan gynnwys datblygu "gwasanaethau iechyd meddwl, llesiant meddyliol ac anabledau dysgu cyson ym mhob carchar" sydd wedi'u teilwra yn ôl angen trwy set o safonau a dangosyddion y cytunwyd arnynt ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y carchar a datblygu dulliau o wella cymorth iechyd meddwl i droseddwyr ifanc a throseddwyr sy'n fenywod.

Yn yr un modd, mae Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-2022<sup>3</sup> Llywodraeth Cymru yn cynnwys gofyniad i Lywodraeth Cymru weithio'n agos gyda HMPPS, Byrddau Cynllunio Ardal, byrddau iechyd a rhanddeiliaid eraill i gyflawni gwaith a fydd yn ceisio sicrhau bod gan bob carchar yng Nghymru (gan

---

<sup>1</sup> [Cytundeb Partneriaeth ar gyfer Iechyd mewn Carchardai yng Nghymru](#)

<sup>2</sup> [Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Iechyd Meddwl 2019-2022](#)

<sup>3</sup> [Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-2022](#)

gynnwys Eastwood Park hefyd) wasanaeth cydlynol, tryloyw a chyson sy'n seiliedig ar arfer gorau ar gyfer y rhai hynny sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau. Y nod yw llunio llwybr clinigol safonol ar gyfer rheoli camddefnyddio sylweddau mewn carchardai yng Nghymru – yn ogystal â sicrhau dilyniant gofal yn y gymuned fel y nodir yn y Cytundeb Partneriaeth ar gyfer Iechyd mewn Carchardai<sup>4</sup>).

Bydd y gwaith o ddatblygu'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a'r safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn helpu i sicrhau bod pobl yn y carchar yn gallu derbyn gofal a thriniaeth gyfatebol i'r hyn sydd ar gael yn y gymuned. Hefyd, bydd yn helpu i gefnogi pobl yn y carchar i wella eu hiechyd a'u llesiant a gwneud cyfraniad pwysig at leihau anghydraddoldebau mewn canlyniadau sy'n bodoli ar hyn o bryd.

### **A yw'r cynnig yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – Cymraeg 2050 Miliwn o Siaradwyr a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2017-2021?**

Mae'r cynigion hyn yn cynnwys cyfleoedd i gefnogi Thema 2 uchod: 'Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg', a Thema 3: 'Creu amodau ffafriol (seilwaith a chyd-destun)' Cymraeg 2050.

Yng Nghymru, mae chwe charchar i ddynion yn unig ar hyn o bryd, ac mae'r carcharorion hyn yn cynnwys siaradwyr Cymraeg sy'n gallu dewis derbyn gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg o dan ymrwymadau a nodir yng Nghynlluniau Iaith Gymraeg HMPPS a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, ac o dan Safonau'r Gymraeg wrth dderbyn gwasanaethau gan fyrddau iechyd.

Rhaid i droseddwyr benywaidd o Gymru fwrw eu dedfryd yn un o garchardai Lloegr. Fodd bynnag, mae Cynllun Iaith Gymraeg HMPPS (Adran 2, 66) yn nodi y bydd yn gweithio gyda'r ystad menywod i sicrhau bod menywod yn cael y cyfle i ddatgan Cymraeg fel dewis iaith.

Mewn perthynas ag iechyd, mae'r fframwaith strategol "*Mwy na geiriau...*" yn ceisio cryfhau gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg.<sup>5</sup> Mae egwyddorion allweddol y fframwaith hwn wedi'u hymgorffori yn y Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-2022 a'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Iechyd Meddwl 2019-2022 – sef bod rhaid i bob unigolyn a sefydliad sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau ystyried hawl pobl i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg. Er enghraifft, un o ganlyniadau'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-2022 yw sicrhau bod "*siaradwyr Cymraeg a'u*

---

<sup>4</sup> [Cytundeb Partneriaeth ar gyfer Iechyd mewn Carchardai yng Nghymru](#)

<sup>5</sup> [Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#)

*teuluoedd yn gallu derbyn cymorth ar gyfer problemau camddefnyddio sylweddau yn eu hiaith eu hunain”.*<sup>6</sup>

Mae Safonau'r Gymraeg<sup>7</sup> a osodir ar Lywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol iddi roi ystyriaeth lawn wrth wneud penderfyniadau polisi i unrhyw effaith bosibl ar y Gymraeg, ym mhob maes polisi, er mwyn sicrhau bod polisiâu mwy cadarn ar waith sy'n cyd-fynd â'r dyhead o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Hefyd, mae'n sicrhau nad oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol i bolisiâu Llywodraeth Cymru a dim effeithiau niweidiol ar y Gymraeg.

Gofynnir cwestiynau safonol am effaith y polisi ar y Gymraeg fel rhan o'r broses ymgynghori ar y Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau drafft a'r safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl mewn carchardai.

### **Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac eglurwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg.**

Dylai'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar hyrwyddo'r Gymraeg ac ar ddarparu gwasanaethau Cymraeg:

- Mae'n rhaid i bob carchar yng Nghymru gofnodi data ar unigolion sydd wedi nodi'r Gymraeg fel dewis iaith, a dylai siaradwyr Cymraeg fod yn ymwybodol o'r hawliau a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt dderbyn gwybodaeth a gwasanaethau Cymraeg o dan Gynlluniau Iaith Gymraeg HMPPS<sup>8</sup> a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.<sup>9</sup> Rhaid i bob bwrdd iechyd yng Nghymru weithredu yn unol â Safonau'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) (2011) gan alluogi pawb sy'n derbyn neu'n defnyddio eu gwasanaethau i wneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, yn ôl eu dewis personol.
- Safonau Iechyd Meddwl Newydd: Mae'r safonau cyffredinol newydd arfaethedig ar gyfer iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd yn nodi y dylid darparu gwybodaeth i gleifion mewn fformat sy'n hawdd ei ddeall fel rhan o'r safonau ar gyfer asesu a chynllunio gofal. Er mwyn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg (byrddau iechyd) a'r Cynllun Iaith Gymraeg (y Weinyddiaeth Gyfiawnder a HMPPS), dylai'r wybodaeth hon fod ar gael i gleifion trwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â'u dewis personol.

---

<sup>6</sup> [Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-2022](#)

<sup>7</sup> [Safonau'r Gymraeg](#)

<sup>8</sup> [Cynllun Iaith Gymraeg 2020-2023 HMPPS](#)

<sup>9</sup> [Cynllun Iaith Gymraeg 2018 y Weinyddiaeth Gyfiawnder](#)

- Y Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau: Dylai'r cynigion ganiatáu i garcharorion ddefnyddio'r Fframwaith trwy gyfrwng y Gymraeg os mai dyna yw eu dewis personol, yn unol â Safonau'r Gymraeg ac ymrwymadau mewn Cynlluniau Iaith Gymraeg, ac felly byddent yn arwain at gyfleoedd yn y carchar i hybu Thema 2 a Thema 3 fel y'u nodir uchod. Dylai'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar iechyd siaradwyr Cymraeg os yw'r ymyriad a gynigir gan wasanaethau camddefnyddio sylweddau (yn enwedig os yw'n cynnwys elfen o gwnsela) ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hyn yn rhoi cyfle i siaradwyr Cymraeg drafod eu problemau/pryderon mewn iaith sy'n diwallu eu hanghenion.
- Fel y nodwyd eisoes, yn unol â Fframwaith Strategol "*Mwy na geiriau...*",<sup>10</sup> dylai cleifion dderbyn "Cynnig Gweithredol" (darparu gwasanaeth Cymraeg heb i ddefnyddwyr gwasanaeth orfod gofyn amdano), a dylai darparwyr annog eu gweithlu i ddatblygu'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Ar wahân i'r effeithiau cadarnhaol cyffredinol a fydd yn deillio o'r cynigion, nid yw swyddogion wedi nodi unrhyw effeithiau andwyol ar y Gymraeg.

### **Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith<sup>11</sup> (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?**

Ni ddylai'r cynnig drafft effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg, nifer y siaradwyr Cymraeg na chynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith.

### **Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oed, gan gynnwys oedolion (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?**

Byddai sicrhau a chynllunio ar gyfer darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn arwain at effaith gadarnhaol ar y Gymraeg yn y gweithle. Byddai'n caniatáu mwy o gyfleoedd i'r rhai sydd â sgiliau Cymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oed ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliad gwaith.

<sup>10</sup> Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol

<sup>11</sup>Gall y cymunedau hyn fod yn gymunedau gwledig clos, rhwydweithiau cymdeithasol gwasgaredig mewn lleoliadau trefol, a chymunedau rhithwir sy'n ymestyn ar draws ardaloedd daearyddol.

## **Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar wasanaethau sydd ar gael yn y Gymraeg<sup>12</sup> (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?**

Fel y nodwyd uchod, dylai'r gwasanaethau a amlinellir yn y cynnig gydymffurfio â'u dyletswyddau cyfreithiol mewn perthynas â'r Gymraeg, a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

## **Sut y byddwch yn sicrhau bod pobl yn gwybod am wasanaethau sydd ar gael yn y Gymraeg ac yn gallu eu defnyddio mor hawdd â gwasanaethau Saesneg? Pa dystiolaeth / data a ddefnyddiwyd gennych i lywio eich asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan siaradwyr Cymraeg neu grwpiau â diddordeb yn y Gymraeg?**

Hefyd, mae proses barhaus ar waith ar gyfer casglu data cyfredol ar sgiliau iaith staff carchardai. Dylid defnyddio'r data hyn i helpu i gynllunio gwasanaethau ar gyfer siaradwyr Cymraeg, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth carcharorion o'r cyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio'r Gymraeg gyda staff, a galluogi carchardai i wella eu gwasanaethau. Os yw defnyddwyr gwasanaethau yn gwybod eu bod yn gallu derbyn cymorth yn eu dewis iaith, byddai'n rhoi cyfle i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith ac i ddefnyddwyr gwasanaethau gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd.

Unwaith eto, mae'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau yn nodi'n benodol y dylai staff fod yn ymwybodol o'r angen i wneud y "Cynnig Gweithredol" (darparu gwasanaeth Cymraeg heb i ddefnyddwyr gwasanaeth orfod gofyn amdano) ac annog darparwyr i annog eu gweithlu i ddatblygu'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Mae pobl sydd yn y carchar ar hyn o bryd yn gwybod bod ganddynt yr hawl i gwyno i Gomisiynydd y Gymraeg am faterion yn ymwneud â'r Gymraeg, a dylai staff hwyluso unrhyw gŵyn y mae unigolyn yn dymuno ei gwneud.

## **Pa dystiolaeth arall fyddai'n eich helpu i gynnal asesiad gwell?**

Mae'n bosibl y bydd gan grwpiau sy'n ymwneud â'r Gymraeg ddiddordeb yn y maes hwn, ac yn benodol a yw gwasanaethau'n cael eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg, ac felly disgwylir iddynt ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion.

---

<sup>12</sup>Nod Strategaeth y Gymraeg yw cynyddu'r ystod o wasanaethau sy'n cael eu cynnig i siaradwyr Cymraeg, a sicrhau cynnydd yn y defnydd o wasanaethau Cymraeg.

Fel rhan o'r broses ymgynghori arfaethedig, byddwn yn gofyn am safbwyntiau yngylch a oes angen cryfhau'r camau gweithredu sy'n cael eu cynnig yn y cynllun cyflawni, ac a oes camau pellach y gallem eu cymryd.

Byddwn yn defnyddio adborth sy'n deillio o'r digwyddiadau ymgysylltu cyn yr ymgynghoriad i helpu i deilwra'r cwestiynau hyn yn briodol.

### **Sut y byddwch chi'n gwybod a yw eich polisi yn llwyddiant?**

Mae'n ofynnol i garchardai yng Nghymru gofnodi data ar unigolion sydd wedi dewis y Gymraeg fel dewis iaith. Gan ddefnyddio'r set ddata hon, dylai fod yn bosibl monitro a yw carcharorion sy'n dymuno derbyn gwasanaethau yn y Gymraeg – ac sydd angen triniaeth o dan y Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau ac yn unol â'r safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y carchardai – yn gallu cael mynediad at wasanaethau yn y Gymraeg.

**Tîm Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Sylweddau a Grwpiau Agored i Niwed,  
Llywodraeth Cymru (Ionawr 2022)**